Cofnodion o Gyfarfod Cyllideb Cyngor Tref Dinbych 2026/2027 a gynhaliwyd ddydd Llun, 19 Ionawr 2026

Yn bresennol (Wyneb yn Wyneb):Y Cynghorwyr: Ruth Griffiths, Roy Tickle, Gaynor Wood-Tickle, Alyn Ashworth, Philip Stevens, Andrew Hine, Sylvia Jennings, Matthew Jones, Rob Davies, Medwyn Jones (Clerc y Dref Dros Dro a Swyddog Cyllid) a Jo Davies (Rheolwr y Swyddfa Dros Dro).

Trwy Zoom:Y Cynghorydd Pauline Edwards

Aelodau'r Cyhoedd:
Dim

Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd RG, bawb i gyfarfod cyllideb mis Ionawr y Cyngor Tref, gan ddatgan:

"Nid oes larwm tân wedi'i drefnu, felly os bydd y larwm tân yn canu ar unrhyw adeg, cofiwch adael y siambr yn dawel drwy'r grisiau a chwrdd wrth yr angel.
Mae cofrestr presenoldeb yn y siambr; gofynnir i chi lofnodi. Mae hyn o'r pwys mwyaf ac yn rhan o'n Gorchmynion Sefydlog. Er efallai na fyddwn bob amser yn cytuno â sylwadau ein gilydd, peidiwch â thorri ar draws siaradwyr a dangoswch barch at eu safbwyntiau. Triniwch eich gilydd bob amser ag urddas a pharch."

Os oes unrhyw Gynghorwyr wedi cwblhau ffurflen datganiad buddiant ar gyfer y cyfarfod presennol hwn, gofynnir i'r Cynghorwyr hynny adael y Siambr tra bo'r eitem honno'n cael ei thrafod – yn unol â "Hyfforddiant y Cod Ymddygiad".

120. Ymddiheuriadau am Absenoldeb: Y Cynghorwyr Jan Tomlinson, Lara Pritchard a Gaynor Morgan Rees.

121. Datganiad o Fuddiant Personol/Rhagfarnllyd
Gofynnwyd i'r Aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu ragfarnllyd mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn:

Rhif yr Eitem	**Enw'r Cynghorydd**	**Personol/Rhagfarnllyd**
Eitem 3 (Neuadd y Dref yn Unig)	**Gaynor Wood Tickle**	**Rhagfarnllyd**
Eitem 3 (Neuadd y Dref yn Unig)	**Roy Tickle**	**Rhagfarnllyd**

122. Trafod a Pharatoi Cyllideb Wariant y Cyngor ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2026/2027

Cyfeiriodd y Cadeirydd yr Aelodau at y papurau cyllideb a gylchredwyd at ddiben ystyried a gosod cyllideb wariant Cyngor y Dref ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026/2027.

Ystyriodd yr Aelodau'r wybodaeth gyllidebol a ddarparwyd gan y Clerc y Dref Dros Dro a'r Swyddog Cyllid Cyfrifol, ac archwiliwyd pob pennawd cyllideb yn ei dro. Trafodwyd y ffigurau arfaethedig yn fanwl a chytunwyd ar bob pennawd.

Yn dilyn trafodaeth fanwl, cadarnhaodd yr Aelodau fod cyfanswm holl benawdau'r gyllideb ar gyfer 2026/2027 yn £342,750.00, sy'n cynrychioli gostyngiad o £25,600 o'i gymharu â 2025/2026 (tua 6.95%).

Penderfynwyd: Bod Cyngor y Dref yn cymeradwyo cyllideb wariant o £342,750.00 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026/2027.
(Penderfyniad wedi'i basio'n unfrydol.)

123. Trafod a Gosod Swm y Praesept ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2026/2027 ar sail Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer Dinbych o 3711 (2025/2026)

Penderfynodd Cyngor y Dref y bydd y praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026/2027 yn cael ei osod ar yr un lefel â'r hyn a gytunwyd ar gyfer 2025/2026, heb unrhyw gynnydd.

124. Penderfynu pa un o'r cyrff canlynol y dylai'r Cyngor ymuno ag ef:

- **DCC**
- **NALC**
- **One Voice Wales**

Ystyriodd Cyngor y Dref yr opsiynau o ran aelodaeth sefydliadol i gefnogi'r Cyngor mewn meysydd megis AD, hyfforddiant, polisïau a chydymffurfiaeth reoleiddiol. Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch cyrff aelodaeth posibl, gan gynnwys One Voice Wales, NALC a DCC. Nodwyd a chytunwyd bod yn ofynnol i Gyngor y Dref fod yn aelod o un corff o'r fath.

Yn dilyn trafodaeth fanwl, **Penderfynwyd** y byddai aelodaeth gyda NALC yn diwallu anghenion Cyngor y Dref orau.

Caeodd y Cadeirydd y cyfarfod am 20.08**.**

Llofnod: ……

Dyddiad: ……